**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/05661/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

19 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ar 12 Awst ynglŷn â deiseb P-05-1014 i roi statws gweithiwr allweddol i bractisau deintyddol a'u staff. Ymddiheuraf am fod mor hir yn ateb.

Yn ystod brig y pandemig, ystyriodd Llywodraeth Cymru weithwyr hanfodol yng nghyd-destun cael mynediad at ddarpariaeth addysg a gofal i'w plant, gan eu galluogi i barhau i weithio. Nid oedd deintyddion a'u timau wedi'u henwi'n benodol, ond roedd y rhestr yn cynnwys "staff cymorth a staff arbenigol sydd eu hangen i gynnal sector iechyd a gofal cymdeithasol y DU".

Gydag ysgolion wedi dychwelyd a lleoliadau gofal plant eisoes yn gallu gofalu am garfan ehangach o blant, does dim angen blaenoriaethu mynediad at ddarpariaeth gyfyngedig a gall gweithwyr hanfodol gael mynediad at y gwasanaethau hyn yn ôl yr angen. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar y trefniadau ar gyfer gofal plant ac addysg os bydd cyfyngiadau lleol neu genedlaethol yn y dyfodol. Os bydd newid i'r rhestr ehangach o weithwyr hanfodol, byddwn yn ystyried y modd gorau o wneud hynny.

Rwy'n deall bod y Prif Swyddog Deintyddol wedi bod mewn cysylltiad gyda Chymdeithas Ddeintyddol Annibynnol Cymru i roi peth sicrwydd o ganlyniad i'r gwersi a ddysgwyd gan y proffesiwn yn ystod y pandemig na fyddwn yn camu yn ôl o'r cam adfer Oren ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.